Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Ebrill 2019

Mae canlyniadau dosbarthiad carcasau a ryddhawyd yn ddiweddar mewn perthynas â lladd-dai yng Nghymru a Phrydain yn 2018 yn dangos bod nifer cynyddol o ŵyn yn ateb gofynion dosbarthau braster 2 neu 3L. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau hyn.

## ŴYN

Mae'r ffigurau drwyddi draw yn dangos bod mwyafrif yr ŵyn (48.7%) a ddosbarthwyd yn lladd-dai Cymru yn 2018 wedi cael eu rhoi yn nosbarth R; roedd hynny'n 1.6% yn llai nag yn 2017. Wrth i lai o ŵyn gael dosbarth R, cynyddodd nifer y rhai a gafodd eu dosbarthu'n E (+0.9%) ac U (+1.4%) yn y flwyddyn honno, gydag ychydig o dan 11.0% o'r ŵyn yn y sampl yn cael eu dosbarthu'n E. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd cyson yn nifer yr ŵyn a ddosbarthwyd yn nosbarth cydffurfiad E - cynnydd o 2.0% er 2014. Adlewyrchwyd gwelliannau yn y diwydiant dros y blynyddoedd am fod llai o ŵyn wedi'u dosbarthu'n O yn ystod 2018 (0.7% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol).

Yn ystod 2018, roedd cynnydd yn nifer yr ŵyn yn nosbarth braster 2 neu 3L. Roedd y rhan fwyaf (47.2%) o'r ŵyn yn nosbarth braster 3L, sef 2.0% yn fwy nag yn 2017, a chafwyd cynnydd o 1.4% yn nifer yr ŵyn yn nosbarth braster 2. Rhoddwyd llai o ŵyn yn nosbarthau braster 3H (- 2.2%), 4L (- 0.9%), a 4H (- 0.3%) yn ystod y flwyddyn, yn fwy na thebyg am fod yr amodau tyfu yn anffafriol.

**Canran carcasau ŵyn dethol yn ôl dosbarthau braster chydffurfiad yn lladd-dai Prydain rhwng 2014 a 2018**

| | Dosbarth Braster | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3L | 3H | 4L | 4H | 5 |
| 2014 | 0.8 | 16.2 | 52.5 | 23.1 | 6.2 | 1.0 | 0.2 |
| 2015 | 0.7 | 17.1 | 49.2 | 24.9 | 6.8 | 1.0 | 0.2 |
| 2016 | 1.0 | 19.4 | 47.9 | 23.9 | 6.7 | 0.9 | 0.1 |
| 2017 | 1.3 | 19.3 | 45.2 | 25.8 | 6.9 | 1.2 | 0.3 |
| 2018 | 1.6 | 20.7 | 47.2 | 23.6 | 6.0 | 0.9 | 0.2 |

| | Dosbarth Cydffurfiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | E | U | R | O | P |
| 2014 | 8.8 | 28.2 | 51.6 | 11.3 | 0.1 |
| 2015 | 10.4 | 28.9 | 49.7 | 10.9 | 0.1 |
| 2016 | 10.1 | 27.0 | 48.8 | 14.1 | 0.1 |
| 2017 | 9.9 | 28.0 | 50.3 | 11.8 | 0.1 |
| 2018 | 10.8 | 29.4 | 48.7 | 11.1 | 0.1 |

## GWARTHEG DETHOL

Mae canlyniadau'r arolwg o wartheg dethol yn 2018 yn seiliedig ar ladd-dai ym Mhrydain. Yn ôl y ffigurau, roedd nifer y gwartheg dethol yn nosbarth cydffurfiad R yn 2018, sef 44.6%, yr un fath ag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd mwy o wartheg yn nosbarthau O+ (+ 1.0%) ac U- (+ 0.2%) mewn cymhariaeth â 2017. Roedd dros 65% o'r gwartheg dethol yn nosbarthau R ac O+ ac roedd 0.7% yn llai o wartheg yn nosbarth 0-.

Gyda'i gilydd, roedd dosbarthau braster 3 a 4L yn cyfrif am tua 78% o ddosbarthau'r gwartheg dethol yn 2018, gyda chynnydd o 0.5% yn nifer y gwartheg yn nosbarth braster 4L Mewn cymhariaeth â 2017, roedd 0.8% yn llai o wartheg trwm yn nosbarth 4H. Dosbarthwyd dros 35% o garcasau gwartheg dethol ym Mhrydain yn R3 ac R4L yn 2018, a byddent wedi derbyn y pris sylfaenol cyfartalog gan broseswyr yn y DU.


Dylai cynhyrchwyr cig oen a chig eidion anelu at ateb rhagofynion y farchnad a'r cwsmer. Bodlonir y rhagofynion hyn drwy ddeall gofynion y cwsmer ac, ar yr un pryd, ceisio bod yn effeithlon wrth gynhyrchu a phrosesu. Bydd unrhyw garcasau (cig oen neu gig eidion) a gynhyrchir y tu allan i'r rhagofynion hyn yn arwain at gosb a chostau cynyddol i'r sawl sydd yn y gadwyn gyflenwi. O ystyried y strwythur taliadau sy'n bodoli ar hyn o bryd ymhlith y rhan fwyaf o broseswyr, byddai'n ddoeth i gynhyrchwyr strwythuro eu systemau magu a phesgi ar gyfer rhagofynion y farchnad sy'n cael eu targedu. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bwysig cael dealltwriaeth glir o'r gofynion hyn.

Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar arolwg sampl a wnaed mewn lladd-dai ar draws Prydain lle caiff carcasau eu dosbarthu yn ôl grid dosbarth EUROP.

**Canran carcasau gwartheg dethol yn ôl dosbarthau braster chydffurfiad yn lladd-dai Prydain yn 2018**


| | 1 | 2 | 3 | 4L | 4H | 5L | 5H | Overall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | 0.0 | 0.2 | 0.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.5 |
| U+ | 0.1 | 1.0 | 2.1 | 1.8 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 4.0 |
| -U | 0.1 | 1.6 | 6.1 | 6.0 | 1.2 | 0.0 | 0.0 | 15.1 |
| R | 0.2 | 3.0 | 16.1 | 19.2 | 5.7 | 0.3 | 0.0 | 44.6 |
| O+ | 0.1 | 1.6 | 8.0 | 9.7 | 3.0 | 0.2 | 0.0 | 22.7 |
| -O | 0.2 | 1.5 | 5.4 | 3.4 | 0.5 | 0.0 | 0.0 | 11.0 |
| P+ | 0.2 | 0.6 | 0.7 | 0.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1.7 |
| -P | 0.2 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.4 |
| Overall | 1.1 | 9.7 | 38.7 | 39.4 | 10.4 | 0.6 | 0.1 | |

# Gwartheg




Mae prisiau gwartheg dethol yn dal i fod yn is nag oeddynt flwyddyn yn gynharach – a'r un oedd y sefyllfa mewn nifer o wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd. Roedd cyfanswm y cig eidion a gynhyrchwyd ym mis Mawrth yn debyg i'r hyn ydoedd flwyddyn yn gynharach – hynny am fod pwysau carcasau gwartheg dethol wedi cynyddu er bod ychydig yn llai o wartheg wedi eu lladd.


**Prisiau'r farchnad yng Nghymru a Lloegr**; roedd pris cyfartalog y gwartheg dethol yn 187.9c/kg yn yr wythnos ddiweddaraf, yn diweddu 20 Ebrill, sef 4.1c yn llai nag yn yr wythnos flaenorol. Roedd prisiau pwysau byw gwartheg dethol wedi cynyddu rhywfaint ar ddechrau'r mis, ond cafwyd mymryn o ostyngiad o'r naill wythnos i'r llall yn ddiweddar. Er i raddau llai, mae prisiau gwartheg dethol ledled yr UE hefyd yn tueddu i fod yn is nag oeddynt flwyddyn yn gynharach. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 20 Ebrill, teirw ifanc oedd yr unig gategori o wartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr lle cafwyd cynnydd mewn cymhariaeth â'r wythnos flaenorol (cynnydd o 5.9c i 175.2c/kg). Gostyngodd pris yr heffrod 8.7c i 190.7c/kg, a gostyngiad hefyd, sef 9.8c i 185.5c/kg, a gafwyd ym mhris y bustych.




**Prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr**; gostyngodd y pris cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer gwartheg dethol yn ystod yr wythnos yn diweddu 20 Mawrth. Roedd y cynnydd mwyaf, sef 3.1c i 321.6c/kg, ar gyfer teirw ifainc. Cafodd cynnydd o 2.4c i 339.3c/kg ar gyfer bustych, a chynnydd o 1.8c i 339.6c/kg. ar gyfer heffrod. Mae pris pwysau marw bustych ar hyn o bryd yn 18.1c (5.1%) yn is nag oedd yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach.


**Cyfanswm y gwartheg a laddwyd yn lladd-dai'r DU;** Lladdwyd 220,400 o wartheg ym mis Mawrth 2019. Mae hyn yn 1.0% yn llai nag yn y mis cyfatebol y llynedd, ond yn 2.0% yn fwy nag ym mis Chwefror. Er i lai o wartheg gael eu lladd nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, cynhyrchwyd 77,300 tunnell o gig eidion a chig llo ym mis Mawrth. Mae hyn yn 0.2% yn fwy nag yn 2018 am fod pwysau cyfartalog y carcasau, sef 356.4kg, yn drymach nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach.

Lladdwyd 165,200 o wartheg dethol ym mis Mawrth, sef 1.9% yn llai nag yn 2018, ond 2.3% yn fwy nag yn y mis blaenorol. Roedd y cynnydd hwn yn ganlyniad i gynnydd o 13.6% yn nifer y teirw ifanc (13,200) a laddwyd, ynghyd a chynnydd o 3.5% yn nifer y bustych. Er bod nifer y teirw ifainc wedi cynyddu'n sylweddol, mae'r niferoedd yn dal i fod yn is o lawer (-9.0%) nag oeddynt yn y mis cyfatebol y llynedd. Roedd nifer yr heffrod a laddwyd, sef 66,300, yn ostyngiad o 1.1%, ond roedd yn dal i fod yn 0.6% yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Wrth edrych ar chwarter cyntaf eleni, gwelir bod 4.2% yn fwy o heffrod wedi eu lladd nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2018. Mae adroddiadau gan y diwydiant wedi tynnu sylw at y dylanwad negyddol posibl ar nifer y buchod magu yn y dyfodol am fod nifer uchel o heffrod yn cael eu lladd ar hyn o bryd – a hynny ar ôl i nifer fawr o fuchod gael eu lladd yn 2018.




Yn ogystal, cafwyd cynnydd o 1.6% yn nifer y gwartheg llawn-dwf a laddwyd ym mis Mawrth, sef 55,200. Roedd hyn yn dilyn cynnydd sylweddol o 10.6% yn nifer y teirw llawn-dwf, a oedd yn 9.6% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Yn ystod mis Mawrth, lladdwyd 1.4% yn fwy o wartheg llawn-dwf nag yn y mis blaenorol ac 1.5% yn fwy nag ym mis Mawrth 2018. Cynhyrchwyd 77,300 tunnell o gig eidion a chig llo yn ystod mis Mawrth, sef 1.9% yn fwy nag ym mis Chwefror a rhywbeth yn debyg (+0.2%) i'r mis cyfatebol yn 2018.

# Defaid





Mae'r pris pwysau byw am ŵyn yn is nag oedd flwyddyn yn ôl, ond mae wedi tueddu i fod yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd am bedair wythnos yn olynol. Mae hyn yn debygol o fod yn adlewyrchiad o'r cynnydd yn y galw ar gyfer y Pasg. Cynhyrchwyd mwy o gig defaid ym mis Mawrth nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd am fod mwy o ddefaid llawn-dwf wedi eu lladd ac am fod y carcasau'n drymach.

**Prisiau'r farchnad yng Nghymru**; cafwyd gostyngiad o 6.5c yn nyfynbris ansawdd safonol (SQQ) pwysau byw yn y marchnadoedd da byw yng Nghymru yn yr wythnos yn diweddu 20 Ebrill, yn dilyn prisiau uwch yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'r bwlch diweddaraf rhwng prisiau eleni a'r llynedd wedi crebachu eto, gyda'r pris diweddaraf yn 21c yn is nag oedd yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Wrth ystyried y pris cyfartalog dros bum blynedd (2013-18: 207.3c/kg), mae'r SQQ pwysau byw yng Nghymru wedi tueddu i fod yn uwch yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Mae'n bwysig cofio bod y Pasg dair wythnos yn gynharach y llynedd, ac felly mae'n debygol bod y cynnydd diweddar yn y pris yn adlewyrchu'r galw cynyddol yn ystod y cyfnod cyn y Pasg. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod rhai cynhyrchwyr wedi bod yn cadw ŵyn yn y gobaith y byddai prisiau'n codi i'r hyn oeddynt yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, tra bod eraill yn ceisio marchnata ŵyn ar gyfer y Pasg.

Mae prisiau mamogiaid difa wedi tueddu i fod yn llai na'r cyfartaledd pum-mlynedd ers dechrau'r flwyddyn, ond wedi codi'n uwch na'r cyfartaledd am yr eildro yn ystod yr wythnos yn diweddu 20 Ebrill. Y pris cyfartalog am famogiaid difa yng Nghymru oedd £62.69, sef £2.11 yn is nag yn yr wythnos flaenorol, ond bron £3.00 yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, a 30c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (2013-18: £62.40).


**Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru**




**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; roeddynt yn 468.2c/kg yn yr wythnos yn diweddu 20 Ebrill, sef y pris ail uchaf hyd yma eleni. Er bod y pris pwysau marw hwn tua £1.10 yn is na'r prisiau anarferol o uchel y llynedd, mae prisiau wedi codi'n uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (2013-18: 460.7c/kg) am y tro cyntaf ers dechrau Chwefror. Heb os nac oni bai, mae'r ansicrwydd ynghylch y cyfleoedd masnachu sy'n gysylltiedig â Brexit yn ychwanegu'r pwysau ar brisiau, ond am fod y cyfnod Islamaidd, Ramadan, yn digwydd yn fuan ar ôl y Pasg, efallai y bydd yna alw parhaus a phrisiau da.


**Nifer yr holl ddefaid a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU**; 1,128,900 ym mis Mawrth. Mae hyn yn gynnydd o 8.2% mewn cymhariaeth â mis Chwefror ond yn 4.9% yn is nag yn y mis cyfatebol y flwyddyn flaenorol. Lladdwyd 989,600 o ŵyn dethol yn y DU ym mis Mawrth, sef 6.9% yn llai nag yn y mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach, ond 9.0% (82,100 o ŵyn) yn fwy nag ym mis Chwefror. Am fod y Pasg dair wythnos yn ddiweddarach eleni, does dim modd cymharu cyfnod lladd y Pasg yn uniongyrchol â'r llynedd. Lladdwyd bron 7.0% yn llai o ŵyn dethol na'r llynedd yn ystod chwarter cyntaf 2019 am y cafodd llai o ŵyn eu geni yn 2018.

**Lladd ŵyn dethol yn y DG**




Lladdwyd 139,300 o famogiaid a hyrddod difa yn lladd-dai'r DU ym mis Mawrth, sef 11.7% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd a 2.2% yn fwy nag ym mis Chwefror. Yn dilyn y cynnydd yn y nifer a laddwyd yn ystod mis Mawrth, cafwyd cynnydd sylweddol o 12.3% yn y cig defaid a gynhyrchwyd, sef cyfanswm o 24,700 tunnell. Hefyd, roedd carcasau'r defaid llawn-dwf yn drymach o lawer nag oeddynt flwyddyn yn gynharach. Roedd y pwysau cyfartalog yn 31kg, sef 5.7kg yn drymach, ac mae'n debygol fod hyn yn rhannol gyfrifol am y faith fod 3.1% yn fwy o gig defaid wedi ei gynhyrchu nag ym mis Mawrth 2018.


# Moch




Mae'r pris pwysau marw cyfartalog ar gyfer yr holl foch ym Mhrydain yn dal i fod yn is nag oedd yn y flwyddyn flaenorol. Yn ystod y mis cynhyrchwyd mwy o borc na blwyddyn yn gynharach yn dilyn cynnydd ym mhwysau carcasau. Rhywbeth yn debyg i'r cyfnod cyfatebol y llynedd yw cyfanswm y moch a laddwyd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn - er gwaethaf y gostyngiad yn y niferoedd a laddwyd yn ystod mis Mawrth.


**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) yn 142.6c/kg yn yr wythnos yn diweddu 06 Ebrill, sef yr un peth ag yn yr wythnos flaenorol. O'i gymharu â'r wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach, mae'r pris ar hyn o bryd yn 5.3c (3.6%) yn is. Yn dilyn y prisiau is a gofnodwyd ar ddiwedd 2018, mae'r duedd tuag i lawr wedi parhau i mewn i bedwerydd mis 2019. Dywedir bod y galw'n isel gydag ansicrwydd ynghylch Brexit yn atal unrhyw dwf yn y farchnad. Mae data Kantar Worldpanel yn awgrymu bod rhai toriadau porc (fel stêcs ac ysgwyddau) wedi gweld twf yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn, ond bod bacwn wedi gweld dirywiad mawr o ran cyfaint a gwerth. Bydd hyn wedi cael effaith negyddol ar gydbwysedd carcasau.

**Pris Cyfartalog Moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain**




**Prisiau perchyll ym Mhrydain**; Nid oedd pris cyfartalog perchyll 30kg ar gael ar gyfer yr wythnos yn diweddu 13 Ebrill am nad oedd y sampl yn ddigon dibynadwy. Yn yr un wythnos, cafwyd cynnydd o 30c i £36.96 y mochyn ym mhris perchyll 7kg o'i gymharu ag wythnos yn gynharach - er bod y pris hwn yn 6.2% yn is na blwyddyn yn ôl.

**Lladd moch heb fagu yn y DG**




**Yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU**; lladdwyd cyfanswm o 875,500 ym mis Mawrth, sef 2.6% yn fwy nag yn y mis blaenorol. Mewn cymhariaeth â blwyddyn yn gynharach, lladdwyd 2.6% yn fwy o foch nag ym mis Mawrth 2018. Er bod hyn yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, mae'r cyfanswm ar gyfer chwarter cyntaf 2019 yn debyg i'r hyn oedd y flwyddyn flaenorol (- 0.5%), ond 3.0% yn uwch nag yn 2017.

Lladdwyd 854,600 o foch heb fagu yn lladd-dai'r DU ym mis Mawrth, sef 7,400 (2.6%) yn llai nag ym mis Mawrth y llynedd, a 2.4% yn fwy nag yn y mis blaenorol. Lladdwyd 21,000 o hychod a baeddod yn ystod mis Mawrth. Mae hyn yn 3.9% yn llai nag yn y mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach, ond yn 10.5% yn fwy nag yn y mis blaenorol. Er i lai o foch gael eu lladd ym mis Mawrth nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, cynhyrchwyd 1.0% yn fwy o gig, sef cyfanswm o 75,800 tunnell. Mae'n debyg taw'r rheswm am hyn oedd bod carcasau moch heb fagu a hychod/baeddod yn drymach nag oeddynt yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Roedd moch heb fagu yn 1.7kg yn drymach na'r llynedd a hychod a baeddod yn 3.1kg yn drymach. Cynhyrchwyd bron 3.0% yn fwy o gig moch nag yn y mis blaenorol.